

CHARLES, EDWARD (1757 - 1828), llenor, a'i galwai ei hunan yn 'Siamas Wynedd '.

Enw: Edward Charles
Ffugenw: 'siamas Wynedd
Dyddiad geni: 1757
Dyddiad marw: 1828
Rhiant: Margaret Charles
Rhiant: Edward Charles
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llenor
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yng Nghlocaenog (bedyddiwyd yno 23 Medi 1757), yn fab i Edward (amaethwr) a Margaret Charles. Ni wyddys nemor ddim o'i hanes bore, ond dywedir ([Jenkins, Thomas Charles](#), ii, 390) iddo fod dan addysg [David Ellis](#), curad Derwen, ac wedyn yn brentis yn Rhuthyn. Erbyn 1789, beth bynnag, yr oedd yn gweithio gyda dilledydd yn Llundain. Etholwyd ef (5 Ebrill 1790) yn aelod o Gymdeithas y Gwyneddigion - bu'n ysgrifennydd iddi yn 1796 ac yn 'fardd' y gymdeithas ddwywaith (1800, 1810). Fel prydydd, nid yw o fawr bwys; ond bu'n copïo llawysgrifau dros '[Owain Myfyr](#)' (Owen Jones) yn 1803-4, a chrynhodd gasgliad o lythyrau (y rhan fwyaf ohonynt erbyn hyn yn yr Amgueddfa Brydeinig neu yn Llyfrgell Rydd Caerdydd) sy'n ffynhonnell bwysig i chwilotwyr ar hanes Cymry Llundain a'u cymdeithasau. Mwy hysbys yw ei ysgrifeniadau dadleuol. Er ei fod yn un o gyfeillion pennaf [John Jones](#), Glan-y-gors, ni chytunai o gwbl â'i syniadau gwleidyddol, ac ymosododd (gydag eraill) ar y Seren tan Gwmmwl, yng *Ngeirgrawn* [David Davies](#), Holywell, 1796. Ond casach fyth ganddo oedd y Methodistaid; yn 1793 ymosododd arnynt (heb eu henwi) yng *Nghylchgrawn* [Morgan John Rhys](#); ac yn 1797 cyhoeddodd lyfryn yn eu herbyn, *Epistolau Cymraeg at y Cymry*. Anghymeradwyid hwn gan amryw o'i gyfeillion yn Llundain ac yng Nghymru, ac yn 1806 cyhoeddwyd *Amddiffyniad i'r Methodistiaid*, gan 'Arvonius,' sef [Thomas Roberts](#), Llwyn'rhudol. Ysgrifennwr ffraeth a chwerw, mewn arddull orflodeuog, oedd Edward Charles. Efallai mai ef oedd patrwm '[Brutus](#)' (David Owen), ac mai 'Jack y lantern' Siamas Wynedd a awgrymodd yr enw 'Jacks' i [Frutus](#). Bu Edward Charles farw yn 1828, mewn tlodi dirfawr, meddir.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Leathart, *Origin and Progress of the Gwyneddigion Society of London* (London 1831)

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, sub ann.1799, 35

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908), ii, pen. 38

J. Hubert Morgan yn *Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, 1931, 25-34

Y Cymmrodor, 1951, pen. iv

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

